ADRODDIAD, DOGFENNU

# Data a ddefnyddir gan Awdurdod Cyllid Cymru wrth adrodd ar berfformiad o 2023 hyd 2024

Mesurau perfformiad Awdurdod Cyllid Cymru. Yn darparu tryloywder ar gyfer y data sylfaenol yn yr adroddiad ar berfformiad yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 19 Medi 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 19 Medi 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


## Cyflwyniad

## Data



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Cyhoeddodd Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) ei **adroddiad blynyddol** ar gyfer 2023-24 ar 19 Medi 2024, gan gynnwys adran sy'n ymdrin â pherfformiad y sefydliad dros y flwyddyn (yr "**adroddiad ar berfformiad**"). Bwriad yr adroddiad hwn yw rhoi darlun ystadegol o'r data a ddefnyddir yn y ddogfen honno, a sicrhau bod y setiau data sylfaenol ar gael yn llawn ar gyfer cyfeirio neu ddadansoddi pellach.

Defnyddir sawl siart (ac un tabl) yn yr adroddiad hwn, sy'n cyflwyno data newydd ar gyfer pob un o'r gwahanol ddangosyddion perfformiad ar gyfer ACC yn y cyfnod 2023-24. Mae rhai o'r rhain wedi'u cynnwys rywle yn yr adroddiad blynyddol, a chyfeirir atynt yn unol â hynny, er nad yn yr un drefn o reidrwydd. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys rhywfaint o ddata nad ydynt wedi'u cyflwyno yn yr adroddiad blynyddol er mwyn rhoi darlun mwy cyflawn o'r holl ddata a ddefnyddir gan ACC yn ei ddadansoddiad mewnol o berfformiad.

At ddibenion astudio'r data, weithiau mae'n haws dychmygu gwerthoedd y dangosyddion perfformiad wedi'u gwrthdroi. Er enghraifft, mae canran y ffurflenni treth a gafodd eu ffeilio ar amser yn agos at 100% ac mae'n anodd iawn gweld unrhyw amrywiad ar raddfa o 0-100% mewn delwedd statig. Yn hytrach na newid y raddfa i nodi 97-100%, a fyddai'n gor-bwysleisio'r amrywiad, rydym yn cyflwyno canran y ffurflenni treth NA CHAFODD eu ffeilio ar amser, gan ddefnyddio graddfa o 0-3%. Mae hyn yn rhoi adlewyrchiad tecach o'r duedd mewn delwedd statig, a lle defnyddir y dechneg hon, mae'r data ar gyfer y mesur gwrthdro a'r mesur gwirioneddol ar gael yn y daenlen sy'n cyd-fynd â'r ddogfen.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad byr o bob mesur, ac efallai y bydd y darllenydd am ei ystyried ar y cyd â'r naratif manylach yn yr adroddiad ar berfformiad, sydd wedi'i osod yng nghyd-destun dull ac amcanion y sefydliad. Lle bo'n berthnasol, mae nodau tudalen i rannau perthnasol yn yr adroddiad

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

blynyddol wedi’u cynnwys o dan bob siart.

Sylwer bod y rhan fwyaf o'r dadansoddiad isod yn berthnasol i'r Dreth Trafodiadau Tir (TTT), er pan fo hefyd yn berthnasol cynnwys data'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (TGT), mae’r data hynny hefyd wedi'u cynnwys yn y mesur.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Data

## Siart 1: Nifer y ffurflenni TTT a gyflwynwyd




Nid yw'r siart hwn yn cael ei ddangos yn benodol yn yr adroddiad blynyddol cysylltiedig.

Mae'r siart hwn yn nodi'r cyd-destun y dylid ei ddefnyddio wrth ystyried y mesurau perfformiad. Mae'n dangos sut mae nifer y trafodiadau TTT a dderbyniwyd ym mhob mis wedi newid yn ystod 2022-23 a 2023-24.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae'r siart yn dangos patrwm tymhorol yn ystod y ddwy flynedd gyda chynnydd cyson yn rhan gyntaf pob blwyddyn, ac yna gostyngiad tymhorol ar ôl y Nadolig. Fodd bynnag, roedd y gostyngiad tymhorol ar ddiwedd 2022-23 hefyd yn cyd-daro â dirywiad cyffredinol mewn amodau economaidd sydd wedi arwain at nifer is o drafodiadau yn gyffredinol drwy gydol 2023-24 o'i gymharu â 2022-23.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 2: Canran y trafodiadau nad ydynt yn cael eu prosesu’n awtomatig hyd at y taliad cychwynnol, yn ôl y mis y’u derbyniwyd




Mae hyn yn cynnwys cyflwyniad a thaliad cychwynnol (os yn berthnasol) yn unig ac nid unrhyw weithred y gall yr Awdurdod ymgymryd â hi yn y dyfodol er mwyn rheoli risg

Nid yw'r siart hwn yn cael ei ddangos yn benodol yn yr adroddiad blynyddol cysylltiedig.
Mae gan ACC darged perfformiad o brosesu 98% o drafodiadau’n awtomatig heb unrhyw waith â llaw.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae hyn yn cynnwys derbyn trafodiadau digidol a pharu'n awtomatig daliadau a dderbynnir ar gyfer unrhyw drafodiadau lle mae atebolrwydd ariannol, ac mae hyn yn cynnwys TTT a TGT.

Mae'r siart hwn yn defnyddio'r dechneg gwrthdro fel yr eglurwyd yn y cyflwyniad ac yn dangos bod canran y trafodiadau nad ydynt yn eu prosesu'n awtomatig wedi gostwng yn gyffredinol dros y ddwy flynedd, gyda'r data'n symud yn araf tuag at y targed. Mae'r brig yn ystod mis Rhagfyr 2023 a mis Ionawr 2024 yn ymwneud â phroblem yn y system a gafodd ei datrys yn gyflym fel bod y data yn ôl ar y trywydd iawn erbyn mis Chwefror 2024.

Serch hynny, mae gan y mesur hwn dipyn o ffordd i fynd eto er mwyn cyrraedd ein targed uchelgeisiol o 98%. Mae'n debygol y bydd hynny'n dibynnu ar ACC yn parhau i wneud gwelliannau o ran paru taliadau â thrafodiadau'n awtomatig.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 3: Canran y ffurflenni Treth Trafodiadau Tir a dderbyniwyd ar ôl 30 diwrnod, yn ôl y mis y daeth y trafodiad i rym




Nid yw'r siart hwn yn cael ei ddangos yn benodol yn yr adroddiad blynyddol cysylltiedig.

Mae gan ACC darged perfformiad o 98% o ran derbyn ffurflenni TTT yn brydlon, hynny yw o fewn 30 diwrnod i'r dyddiad dod i rym.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae’r siart hwn yn defnyddio’r dechneg wrthdro fel yr eglurwyd yn y cyflwyniad ac yn dangos bod canran y ffurflenni treth a dderbyniwyd ar ôl 30 diwrnod o’r dyddiad dod i rym wedi parhau i fod yn is na’n targed o 2% drwy gydol y rhan fwyaf o 2022-23 a 2023-24, gyda thuedd gyffredinol ar i lawr drwy gydol 2023-24 ac yn is nag 1% am y tro cyntaf ar ddiwedd y flwyddyn honno.

## Siart 4: Canran y ffurflenni Treth Trafodiadau Tir a dalwyd ar ôl 30 diwrnod, yn ôl y mis y daeth y trafodiad i rym




**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Nid yw'r siart hwn yn cael ei ddangos yn benodol yn yr adroddiad blynyddol cysylltiedig.

Mae gan ACC darged perfformiad o 98% o ran derbyn taliadau yn erbyn ffurflenni TTT yn brydlon, hynny yw o fewn 30 diwrnod i'r dyddiad dod i rym.

Mae’r siart hwn yn defnyddio’r dechneg wrthdro fel yr eglurwyd yn y cyflwyniad ac yn dangos bod canran y ffurflenni treth a dalwyd ar ôl 30 diwrnod o’r dyddiad dod i rym wedi gostwng yn gyffredinol drwy gydol blwyddyn ariannol 2022-23 ac wedi cyrraedd ein targed ym mis Chwefror 2023. Yn ystod 2023-24, bu ychydig o gynnydd yn y ganran, gan gyd-daro â’r dirywiad yn yr economi ond roedd yn parhau i fod yn agos at ein targed, yn enwedig yn ystod ail hanner y flwyddyn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 5: Canran y dyledion Treth Trafodiadau Tir a gasglwyd ar ôl 30 diwrnod a 90 diwrnod, yn ôl y mis y daeth y trafodiad i rym




Nid yw'r siart hwn yn cael ei ddangos yn benodol yn yr adroddiad blynyddol cysylltiedig.

Ar gyfer pob trafodiad TTT sydd ag atebolrwydd ariannol nad yw'n cael ei gyflwyno a'i dalu o fewn 30 diwrnod, caiff dyled ei chreu. Nod ACC yw casglu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

taliadau ar drafodiadau sy'n dod yn ddyled o fewn 30 diwrnod arall ac mae gennym darged i gasglu 90% o'r dyledion hynny o fewn yr amserlen honno, yn ogystal â tharged i gasglu 98% o’r dyledion hynny o fewn 90 diwrnod. Mae trafodiadau a gyflwynir y tu hwnt i’r amserlenni hyn yn creu tuedd yn y mesur hwn ac nid ydynt wedi’u cynnwys yn y cyfrifiad. Yn lle hynny, mae ACC yn dadansoddi'r achosion hyn ar wahân er mwyn sicrhau y cedwir at amserlenni tebyg ar ôl eu derbyn.

Mae’r siart hwn yn defnyddio’r dechneg wrthdro fel yr eglurwyd yn y cyflwyniad ac yn dangos bod dyledion a gasglwyd o fewn 30 diwrnod o fewn neu’n agos at yr ystod darged ar gyfer y rhan fwyaf o 2022-23 a 2023-24, gyda brig ym mis Tachwedd y ddwy flynedd wedi’i ddylanwadu gan oedi dros dro dros gyfnod y Nadolig pan fyddai’r dyledion hynny wedi cael eu casglu fel arfer. Gwelwyd patrwm tebyg yn y mesur 90 diwrnod ond ar lefel is.

Ar gyfer y ddau fesur hyn, yn enwedig dyledion a gesglir ar ôl 90 diwrnod, gall nifer y trafodiadau fod yn isel ac felly’n naturiol yn amrywiol iawn. Mae hyn yn rhywbeth sydd wedi’i waethygu gan ostyngiad yn lefel gyffredinol y ddyled dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae’n bwysig ystyried y tueddiadau sylfaenol, sy’n agos at y targed yn y ddwy flynedd ar gyfer y ddau fesur.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 6a: Nifer y diwrnodau a'r diwrnodau cyfartalog cymedrig a gymerwyd i wneud ad-daliadau cyfradd uwch Treth Trafodiadau Tir, yn ôl y mis y gwnaed y cais




Nid yw'r siart hwn yn cael ei ddangos yn benodol yn yr adroddiad blynyddol cysylltiedig.

## Siart 6b: Canran yr ad-daliadau Treth Trafodiadau Tir


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## cyfradd uwch a dalwyd ar ôl 30 diwrnod a 60 diwrnod, yn ôl y mis y gwnaed y cais




Nid yw'r siart hwn yn cael ei ddangos yn benodol yn yr adroddiad blynyddol cysylltiedig.

Yn gyffredinol, pan fydd trethdalwyr yn prynu prif breswylfa newydd heb iddynt werthu eu prif breswylfa flaenorol ar yr un pryd, mae’n ofynnol iddynt dalu’r gyfradd uwch o TTT preswyl. Mae'r rhai sy'n gwerthu eu prif breswylfa flaenorol


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

o fewn tair blynedd fel arfer yn gymwys i gael ad-daliad o'r gwahaniaeth rhwng y cyfraddau uwch a'r prif gyfraddau TTT ar y trafodiad gwreiddiol.

Nod ACC yw talu’r ad-daliadau hyn, a elwir yn ad-daliadau cyfradd uwch, mor brydlon â phosibl, ac o fewn 30 diwrnod i dderbyn y cais.

Mae’r ddau siart uchod yn dangos sut mae’r amser a gymerir i wneud ad-daliadau cyfraddau uwch wedi newid dros amser (siart 6a), a chyfran yr holl ad-daliadau a wneir o fewn 30 a 60 diwrnod (siart 6b).

Mae’r siart cyntaf yn dangos bod yr amser cyfartalog a gymerwyd i brosesu ad-daliadau cyfraddau uwch wedi cynyddu ychydig dros 2022-23 a 2023-24, gydag ambell i gynnydd sydyn mwy arwyddocaol yn cyd-daro â heriau tymor byr o ran lefelau staffio a systemau. Serch hynny, mae'r amser cyfartalog i brosesu ad-daliadau cyfradd uwch yn gyffredinol wedi aros ar 10 diwrnod neu lai dros y cyfnod o ddwy flynedd.

Mae’r ail siart yn dangos cyfran yr ad-daliadau cyfradd uwch yr ymdrinnir â hwy o fewn 30 diwrnod a 60 diwrnod, ac mae’n defnyddio’r dechneg wrthdro fel yr eglurwyd yn y cyflwyniad. Fel y gellid disgwyl, gan fod yr amser cyfartalog a gymerir i brosesu ad-daliadau yn fyr, bach iawn yw’r amrywiad yn y mesur hwn dros y 2 flynedd ddiwethaf, gyda dim ond ambell enghraifft brin lle gwelwyd brig pan fethwyd â chyrraedd y targed. Yn gyffredinol, mae’r niferoedd bach o achosion yn dylanwadu ar y brigiau hyn lle mae’r oedi’n aml oherwydd bod gwybodaeth ychwanegol yn cael ei cheisio ac, yn y pen draw, ymateb araf gan y trethdalwr. Roedd y brig a welwyd ym mis Rhagfyr 2023 a mis Ionawr 2024 yn cyd-daro â phroblem yn ein system gyllid. Unwaith y cafodd hyn ei ddatrys, cyrhaeddwyd y targed eto.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 7a: Nifer y diwrnodau cyfartalog a gymerwyd i wneud ad-daliadau Treth Trafodiadau Tir cyffredinol, yn ôl y mis y gwnaed y cais




Nid yw'r siart hwn yn cael ei ddangos yn benodol yn yr adroddiad blynyddol cysylltiedig.

## Siart 7b: Canran yr ad-daliadau Treth Trafodiadau Tir


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## cyfffredinol a dalwyd ar ôl 30 diwrnod a 60 diwrnod, yn ôl y mis y gwnaed y cais




Nid yw'r siart hwn yn cael ei ddangos yn benodol yn yr adroddiad blynyddol cysylltiedig.

Roedd Cynllun Corfforaethol ACC ar gyfer 2022-2025 yn cynnwys ymrwymiad i ehangu ein hadrodd ar ad-daliadau er mwyn cynnwys ad-daliadau cyffredinol, ynghyd ag ad-daliadau cyfradd uwch. Gallai'r ad-daliadau hyn ymwneud â thaliadau dyblyg, hawliadau dilynol am ryddhad, neu ordaliad yn dilyn newidiadau mewn bandiau treth. Er mai ad-daliadau cyfradd uwch yw'r rhan


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

fwyaf o'r ad-daliadau a wneir gennym, mae'r ad-daliadau mwy cyffredinol hyn i gyfrif am yr 20% sy'n weddill.

Mae adroddiad blynyddol y llynedd (2022-23) yn egluro pam nad ydym yn gosod targed ar gyfer yr ad-daliadau cyffredinol hyn. Mae hyn yn bennaf oherwydd heriau o ran paru ceisiadau am ad-daliadau â'r ad-daliadau eu hunain. Fodd bynnag, rydym yn monitro'r data ac yn ei gyflwyno yma er tryloywder.

Mae'r cyntaf o'r ddau siart uchod yn dangos sut mae'r amser a gymerwyd i wneud yr ad-daliadau cyffredinol hyn wedi amrywio ond bod y duedd sylfaenol wedi aros yn sefydlog yn ystod 2022-23 a 2023-24. Mae'r ail siart yn dangos cyfran yr holl ad-daliadau sy'n cael eu gwneud o fewn 30 diwrnod ac o fewn 60 diwrnod, ac mae'n defnyddio'r dechneg wrthdro fel yr eglurwyd yn y cyflwyniad. Mae hefyd yn tynnu sylw at duedd sylfaenol gymharol sefydlog yn y ddau fesur, er gwaethaf rhywfaint o amrywiad misol nodedig.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 8: Canran y trafodiadau na thalwyd yn gywir y tro cyntaf, yn ôl y mis y daeth y trafodiad i rym




Dangosir y siart hwn fel siart 1 yn yr adroddiad blynyddol cysylltiedig.

Mae ACC yn ceisio casglu gwybodaeth am ba mor hawdd yw defnyddio ein gwasanaethau, ein mesur ar gyfer hynny yw canran y trafodiadau a delir yn


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gywir y tro cyntaf. Rydym yn dehongli hyn fel trafodiadau a delir yn llawn mewn un taliad, ac nid ydym yn cynnwys trafodiadau lle mae'r dreth sy'n ddyledus wedi'i diwygio. Mae hynny oherwydd bod unrhyw ddiwygiadau yn effeithio ar nifer a lefel y taliadau am resymau na fyddai'n ymwneud â rhwyddineb defnyddio ein gwasanaethau.

Mae Siart 8, sy'n defnyddio'r dechneg wrthdro fel yr eglurwyd yn y cyflwyniad, yn dangos sut mae'r perfformiad ar gyfer y mesur hwn wedi parhau ar duedd sydd ychydig ar i lawr yn ystod 2022-23 a 2023-24, ond â llai o amrywiad misol yn 2023-24.

## Tabl 1: Achosion risg treth yn ôl proffil ers i'r dull newydd ddechrau ym mis Hydref 2023

| Chwarter derbyniwyd y trafodiad | Risg TTT 4 – triniaeth dreth gwahanol fathau o eiddo | Risg TTT 5 – mewn perthynas â rhyddhad penodol (rhyddhad a) | Risg TTT 6: landlordiaid o bosibl yn osgoi cyfraddau uwch | Risgiau eraill | Pob risg a nodwyd |
|---|---:|---:|---:|---:|---:|
| 2023-24 Ctr 3 | 170 | 65 | 15 | 30 | 285 |
| 2023-24 Ctr 4 | 80 | 35 | 20 | 30 | 165 |

Dangosir y tabl hwn yn yr adroddiad blynyddol cysylltiedig, a chyfeirir at y data yn yr adran **Risg TTT**.

Mae ACC yn gwneud dadansoddiad manwl o'r data a gynhwysir ym mhob trafodiad a dderbynnir er mwyn gwirio a yw'n cynnwys amrywiol nodweddion a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

allai awgrymu bod gwallau cyffredin neu risgiau yn y wybodaeth a ddarperir. Yna caiff pob un o'r 'risgiau treth' hynny eu dadansoddi ar wahân er mwyn nodi nifer y trafodiadau a'r risgiau treth, fel y gellir olrhain hyn dros amser. Mae'r **bennod ar berfformiad yn yr adroddiad** blynyddol yn egluro mwy am ddull ACC o reoli risgiau treth. Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb o nifer y trafodiadau yn ein proffiliau risg ers i ni newid ein dull o gysylltu â phob achos lle mae risg treth yn bresennol, hanner ffordd drwy 2023-24.

Mae'r tabl yn darparu sylfaen ar gyfer gwaith ACC ym maes rheoli risg treth yn y dyfodol ac mae'n canolbwyntio ar y meysydd y mae'n eu nodi ar hyn o bryd fel y rhai mwyaf arwyddocaol. Bydd nifer y risgiau eraill yn cynyddu wrth i'r gwaith presennol barhau i nodi risgiau newydd, a gall y risgiau newydd hynny ymddangos wedyn fel categorïau ar wahân mewn fersiynau o'r tabl hwn yn y dyfodol.

Mae Siartiau 10-16 isod yn dangos y data a ddefnyddiwyd gennym i fesur risg treth mewn adroddiadau blynyddol blaenorol. Maent yn cael eu hailadrodd yma er tryloywder gan fod y dull blaenorol hwnnw wedi parhau yn ystod hanner cyntaf 2023-24. Mae Siart 10 yn dangos y 6 prif risg treth gyda'i gilydd, gyda dadansoddiad o'r setiau data unigol ar gyfer pob un o'r risgiau treth hynny yn siartiau 11-16 isod. Mae data ar gael hyd at hanner ffordd drwy 2023-24, ar gyfer y risg dreth hon ac ar gyfer nifer y trafodiadau (a ddangosir gan y llinell, echelin chwith) a threth mewn perygl (a ddangosir gan y bariau, echelin dde). Ni fydd y data hwn yn cael ei gynnwys mewn fersiynau o'r adroddiad hwn yn y dyfodol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 10: Nifer y trafodiadau a chyfanswm y dreth yn risgiau TTT 1 i 6




(*) large outlier replaced with mean value of tax at risk

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 11a: Risg TTT 1a - gweithgarwch gweddilliol yn ymwneud â chwmnïau sy'n prynu eiddo preswyl





**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 11a: Risg TTT 1a - gweithgarwch gweddilliol yn ymwneud â chwmnïau sy'n prynu eiddo preswyl




**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 12: Risg TTT 2 - ffurflen dreth sydd heb ei dychwelyd




(*) allanolyn mawr wedi'i ddisodli â gwerth cyfartalog y dreth sydd mewn perygl

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 13: Risg TTT 3 - anghytuno â'r gyfrifiannell TTT





**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 14: Risg TTT 4 - triniaeth dreth gwahanol fathau o eiddo




**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 15: Risg TTT 5 - mewn perthynas â rhyddhad penodol (rhyddhad a)




**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 16: Risg TTT 6: landlordiaid o bosibl yn osgoi cyfraddau uwch




**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 17: Nifer a gwerth yr achosion lle diogelwyd TTT




Dangosir y siart hwn fel siart 1 yn yr adroddiad blynyddol cysylltiedig, a chyfeirir at y data yn yr adran **Risg TTT.**

Yn ystod 2022-23 a 2023-24, gwnaeth ACC fwy o ymdrech i ddiogelu treth. Mae hyn pan fydd trethdalwyr wedi cyflwyno diwygiad sy’n cynnwys gostyngiad i’r TTT sy’n ddyledus ar ffurflen dreth, ond ein bod ni’n credu eu bod yn anghywir i wneud hynny. Mewn achosion o’r fath, mae’n bosibl y byddwn yn agor ymholiad


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ac rydym fel arfer yn llwyddo i ddiogelu treth a fyddai fel arall wedi'i had-dalu'n amhriodol.

Mae gwerth treth yr achosion hyn yn aml yn amrywiol iawn ac yn cael ei effeithio gan drafodiadau unigol mawr. Fodd bynnag, mae siart 17 yn dangos cynnydd sylweddol mewn gweithgarwch yn y maes hwn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn ystod 2023-24, gwnaed ymdrech ychwanegol i ddiogelu treth heb fod angen ymchwiliad. Dangosir hyn yn y siart fel achosion atal, ynghyd ag achosion llawn oedd dal angen ymchwilio iddynt.

Roedd lefel y gweithgarwch atal yn uchel iawn yng nghanol 2023-24, er y gwnaed mwy o ymdrech i gau ymchwiliadau llawn yn ystod rhan olaf y flwyddyn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Siart 18: Nifer a gwerth yr achosion lle cafodd TTT ei hadennill neu ei dychwelyd




Dangosir y siart hwn fel siart 2 yn yr adroddiad blynyddol cysylltiedig, a chyfeirir at y data yn yr adran **Risg TTT.**

Ar gyfer achosion sy’n dod o dan y risgiau treth a nodir gennym, bydd ACC yn aml yn agor ymchwiliad i’r Ffurflen Dreth TTT, a all arwain at ddiwygiad, a hwnnw’n gynnydd fel arfer. Yn yr achosion hyn, rydym yn cyfeirio at y term


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

adennill treth er mwyn tynnu sylw at werth y diwygiadau am i fyny hynny. Rydym hefyd yn defnyddio’r term treth a ddychwelwyd pan fydd naill ai ymholiad neu ymchwiliad llai ffurfiol yn awgrymu bod gormod o dreth wedi’i thalu, sydd wedyn yn cael ei had-dalu.

Mae adennill treth wedi bod yn amrywiol hyd yma ac mae hynny’n amlygu gwahanol natur yr achosion rydym wedi gweithio arnynt ers 2019. Yn ystod y flwyddyn gyntaf honno, roeddem yn canolbwyntio’n bennaf ar achosion mwy amlwg o ran risg treth, rhai a oedd yn gymharol hawdd i’w datrys. Ers hynny, rydym wedi cau’r risgiau hynny drwy ddiwygio ein system ac wedi canolbwyntio ar wahanol risgiau ac wedi gweld sefydlogi cyffredinol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac adenillwyd dros £1m yn ystod 2022-23 a 2023-24.

Cafwyd rhywfaint o gynnydd yn nifer yr achosion lle adenillwyd treth drwy gydol 2023-24, yn enwedig tuag at ddiwedd y flwyddyn. Nid yw'n syndod bod yr achosion lle dychwelwyd treth yn llawer is na'r achosion lle adenillwyd treth, ac roedd llai o achosion yn 2023-24 nag yn 2022-23. Mae hyn yn dilyn diwedd prosiect penodol i ddychwelyd treth a ordalwyd mewn cysylltiad â newid mewn cyfraddau treth yn ystod y flwyddyn flaenorol.

---

- **Data a ddefnyddir gan Awdurdod Cyllid Cymru wrth adrodd ar berfformiad o 2023 hyd 2024 (ffeil ODS)**

---

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/data-ddefnyddir-gan-awdurdod-cyllid-cymru-wrth-adrodd-ar-berfformiad-2023-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.